

❖ **AUR, THUS A MYRR**

‘Canys bachgen a aned i ni, mab a roed i ni, a bydd yr awdurdod ar ei ysgwydd. Fe’i gelwir, “Cynghorwr rhyfeddol, Duw cadarn, Tad bythol, Tywysog heddychlon”.’

Mae’r Nadolig yn amser o lawenydd am fod Duw wedi dod i ganol bywyd dyn yn ei Fab Iesu Grist, ac wedi datguddio’i hun i ni yn ei gariad a’i ras. Yn y gwasanaeth hwn, byddwn yn dathlu’r digwyddiad rhyfeddol hwn mewn mawl a chân.

Darlleniad: Mathew 1:18–25

Unwaith eto y Nadolig hwn byddwn fel teuluoedd a chyfeillion yn rhoi a derbyn anrhegion. Y mae’r arferiad hwn yn gydnaws ag ysbryd y Nadolig oherwydd gŵyl y rhoddi mawr yw Gŵyl y Geni, ac yn y gwasanaeth hwn, byddwn yn cofio ac yn dathlu y rhoddi mwyaf a welodd ein byd erioed.

‘Wrth dderbyn ein hanrhegion
Ar fore dydd Nadolig,
O cofiwn anrheg Duw i’r byd,
Y baban bendigedig.’

Gŵyl y derbyn hefyd yw Gŵyl y Nadolig. Nid oes ystyr i roddi os nad oes rhywun i dderbyn. Byddwn yn anfon eto eleni nifer fawr o gardiau a pharseli yn y gobaith y byddant yn cael eu derbyn yn llawen. Yn yr un modd, anfonodd Duw ei rodd anhraethadwy i’r byd, a gwnaeth hynny yn y gobaith y byddwn yn ei derbyn yn llawen.

Yn yr efengylau, cawn hanes dau ddsbarth gwahanol iawn i’w gilydd yn derbyn y baban Iesu, sef y bugeiliaid gwerinol a syml eu bywyd, a’r doethion dysgedig a ddaeth o’r dwyrain i Fethlehem. Yn ein gwasanaeth heddiw, fe ganolbwyntiwn ar hanes y doethion yn dilyn y seren nes canfod trysor y nefoedd ar liniau Mair. Gadewch inni wrando ar yr hanes yn Efengyl Mathew.

Darlleniad: Mathew 2:1–12

Mae hanes y doethion yn ymweld â’r baban Iesu ym Methlehem Jwdea wedi rhoi cyfle i lawer bardd ac arlunydd ddefnyddio ei ddychymyg a llunio stori. Gŵr a wnaeth hyn oedd Beda, mynach o Sais o’r wythfed ganrif. Yn ôl Beda, brenhinoedd gwahanol iawn i’w gilydd o ran oedran, gwedd a phersonoliaeth oedd y tri gŵr doeth. Brenin ifanc, di-farf oedd Caspar, o deulu Cham. Brenin canol oed a thywyll ei groen oedd Balthasar, yn hanu o deulu Japheth, a hen frenin â barf wen oedd Melchior, o deulu Shem. Yn y stori, dywed Beda fod y tri brenin yn cynrychioli holl genhedloedd y byd, a phob oedran o bobl, ac yn eu hymweliad â’r baban Iesu, gwelai addewid am gyflawni’r gobaith a geir yn neges y proffwyd Esea, sef:

‘Fe ddaw’r cenhedloedd at dy oleuni, a brenhinoedd at ddisgleirdeb dy wawr.’

Mae eraill hefyd wedi tynnu ar eu dychymyg wrth fyfyrion ar hanes y doethion. Gwelodd Origen o Alexandria yn yr Aifft, diwinydd o’r ail ganrif, arwyddocâd arbennig yn rhoddion y doethion i’r baban Iesu, a chyhoeddodd fod aur yn arwydd o *frenhinaeth* Crist, thus yn arwydd o *offeiriadaeth* Crist, a myrr yn arwydd o *farwolaeth* Crist.

Yn ein gwasanaeth heddiw, fe arhoswn gyda’r tair rhodd a’u harwyddocâd i ni heddiw.

Fel y dywedwyd, mae sawl stori wedi eu gwau o gwmpas y doethion. Yn ôl un stori, y brenin ifanc Caspar a roddodd aur yn anrheg i’r baban Iesu, y brenin canol oed Balthasar a roddodd thus, a’r brenin Melchior, yr hen ŵr, a roddodd fyrr.

Dechreuwn gyda’r rhodd o ‘aur’. Aur yw brenin y metelau, ac yn chwedlau llawer o wledydd, pwysleisir mai aur yw’r rhodd sy’n weddus i frenin. Os felly, mae’n weddus iawn i’r brenin Iesu yn ei grud.

Un o rinweddau aur yw ei fod yn parhau yn ei werth. Mae llawer iawn o fetelau, gan gynnwys hyd yn oed fetelau caled fel haearn, yn rhydu ac yn darfod ymhen amser, ond mae aur yn eu goroesi i gyd. Wel,

onid felly y brenin a anwyd ym Methlehem Jwdea? Dywed yr emynydd:

‘Mae mwynder cnawd a byd yn myned heibio,
Diflanna oes fel breuddwyd gwael ei lun;
Ond er pob peth sy’n newid ac yn cilio,
Tydi, O Grist, y sydd o hyd yr un.’

Cyfeiriwn yn aml at aur wrth drafod cyfoeth, ond y gwir yw mai fel addurn y defnyddir ef fwyaf, i harddu a mireinio pethau. Yn yr Hen Destament, er enghraifft, darllenwn am y brenin Solomon yn anrhydeddu Duw trwy brydferthu dodrefn a llestri’r deml ag aur, sef y metel puraf a’r disgleiriaf y gwyddai amdano.

Wel, onid aur ein ffydd yw’r Arglwydd Iesu Grist, ac onid ef yw’r puraf a’r disgleiriaf a welodd ein byd erioed? Yn wir, cymaint oedd ei ddisgleirdeb fel y bu i’w ddilynwyr, yn ôl Ioan, weld ynddo ogoniant Duw:

‘A daeth y Gair yn gnawd a phreswyllo yn ein plith, yn llawn gras a gwirionedd; gwelsom ei ogoniant ef, ei ogoniant fel unig Fab yn dod oddi wrth y Tad.’

Yn y baban Iesu gwelodd y doethion frenin yr holl fyd. Y mae potensial rhyfeddol i’w gael ymhob bywyd, onid oes? Pwy, er enghraifft, fyddai’n meddwl mai o’r fesen fach y daeth y dderwen fawr? Wel, pwy feddyliai wrth edrych ar y plentyn di-nerth ar liniau Mair mai ef oedd brenin mawr yr holl fyd! Mynegir y rhyfeddod hwn yng ngeiriau’r hen bennill:

‘Mair ei fam yn gwenu arno
A’i gadw rhag y dŵr a’r tân;
Yntau’n dal yr haul mewn pellter
Rhag llosgi’r byd ar dân.

Mae yn Iesu greadigaeth
Sydd tu hwnt i’n deall ni,
Ymorwedd arno, credu ynddo
Ydyw’r cwbl a fedraf fi.’

Ail rodd y doethion oedd thus, ac fe’i rhoddwyd i arwyddo offeiriadaeth Iesu Grist. Perarogl gwerthfawr iawn yw thus, ac fe’i defnyddir yng ngwasanaethau’r deml Iddewig. Mae’r archoffeiriad yn y deml yn cynrychioli’r bobl mewn addoliad ac aberth, a’i swyddogaeth yw agor ffordd iddynt at orsedd gras, a chreu awyrgylch heddychlon a dymunol rhwng Duw a’i bobl. Y gred yw y gwna hyn trwy aberthu a gwasgaru perarogl gwerthfawr.

Onid ein harchoffeiriad ni yw Iesu Grist? I’r Cristion, Ef yw’r Archoffeiriad Mawr sydd wedi’i uniaethu ei hun â’n gwendid ni, a’n cymodi â Duw drwy aberth y groes. Dyma yn wir yw byrdwn y llythyr at yr Hebraid, fel y gwelwn yn y ddwy adnod ganlynol:

‘Canys nid archoffeiriad heb allu cyd-ddioddef â’n gwendidau sydd gennym, ond un sydd wedi ei demtio ym mhob peth, yn yr un modd â ni, ac eto heb bechod. Felly, gadewch inni nesáu mewn hyder at orsedd gras, er mwyn derbyn trugaredd a chael gras yn gymorth yn ei bryd.’

Un o nodweddion thus yw ei arogl hyfryd. Y mae hefyd yn barhaol ei effaith, ac yn gadael ei arogl peraidd ar bawb sy’n dod i gysylltiad ag ef. Onid hyn hefyd oedd profiad y disgyblion yng nghwmni Iesu Grist? Yn hyfrydwch ei gwmni, daethant i ymwybyddiaeth o’i brydferthwch dwyfol, ac wrth arogl persawr ei gariad, cawsant feddyginiaeth sy’n gwella pob clwyf. Onid hyn yw ein braint ninnau hefyd mewn oedfa ar drothwy’r Nadolig? Yng ngŵyl fawr y Geni, cyhoeddwn fod Duw yn Dduw Immanuel – yn Dduw gyda ni yn Iesu Grist, a bod perarogl ei gariad yn glynu ac yn pereiddio ysbryd pwy bynnag sy’n credu ynddo. Dymunwn fendith iachusol Iesu Grist arnoch dros ŵyl y Geni.

Nesâ at fy enaid, Waredwr y tlawd;
Datguddia dy Hunan, dy fod imi’n Frawd;
Prydferthwch fy mywyd a’i nerth ydwyt Ti,

A phrofi o’th gariad sy’n nefoedd i mi.’

Gorffennwn ein myfyrdod gyda thrydedd rodd y doethion, sef myrr. Yng ngwledydd y Dwyrain hyd heddiw, defnyddir myrr i eneinio’r meirw ar gyfer eu claddu, ac oherwydd hynny mae myrr yn arwydd i ni o farwolaeth Iesu Grist.

Mae’n hawdd iawn inni gredu, wrth glywed carolau swynol ac yn awyrgylch hyfryd addoliad, mai i fyd o dlysnï tangnefeddus y ganwyd Iesu Grist. Pan fo’r angylion yn canu clod i Dduw, y doethion yn plygu mewn addoliad, y bugeiliaid yn syllu mewn syndod, a Mair a Joseff yn dotio ar yr un bach yn ei grud, mae’n chwithig iawn sôn am farwolaeth y baban Iesu. Ond y gwir yw nad i fyd o dlysnï tangnefeddus y ganwyd ein Ceidwad, ond i fyd digroeso a chreulon. Daw hyn yn ofnadwy o wir yn hanes gweithredoedd dieflig Herod a’i filwyr yn lladd plant bach Bethlehem, a’u mamau yn torri’u calonnau.

‘Clywyd llef yn Rama, wylofain a galaru dwys; Rachel yn wylo am ei phlant, ac ni fynnai ei chysuro, am nad oeddent mwy.’

Onid yr un yw’r stori o hyd? Yn gymysg â sŵn clychau’r Nadolig, clywir heddiw lef ddiodefus y diniwed, a chri anobaith pobl o dan iau caethiwed. Y mae’r cryf o hyd yn sathru ac yn gormesu, a thra bydd hyn yn parhau, bydd yr addfwyn yn dioddef a’r diniwed yn gwaedu.

Na, ni pheidiodd rhaib a chasineb Herod, ac nid stori dylwyth teg i’n suo i gysgu yw hanes geni Iesu Grist. Fe’i ganwyd i fyd digroeso ac oer, ond er gwaethaf creulondeb Herod a’i filwyr, ni rwystrwyd bwriadau cariad Duw. Diymadferth oedd y baban ar ei wely gwellt, a diymadferth oedd yr un a arweiniwyd i’r lladdfa, ond y diymadferth hwn a orchfygodd y byd ar groesbren Calfaria. Ac ar fore Sul y Pasg, cyhoeddwyd y newyddion syfrdanol nad gorffen mewn bedd a wnaeth y baban a anwyd gynt ym Methlem, ond gorffen mewn buddugoliaeth ar bechod, angau a’r bedd.

Ar hyd yr oesau, mae teyrnasoedd y byd wedi mynd a dod, ond mae teyrnas Iesu yn aros. Daeth teyrnasoedd y byd i fodolaeth trwy drais a gormes, ond trwy ras a chariad y daeth teyrnas Iesu Grist.

‘Er danfon o’r Herod ynfyd – neges

I’w farchogion gwaedlyd,

Dwyfol dywysog deufyd

Sydd ben ar deyrnasoedd byd.’

Am hynny, peidiwn â digalonni mewn unrhyw fodd. Mae Iesu yn teyrnasu yn ein byd, a’n braint ni y Nadolig hwn yw cyhoeddi’r newyddion da o lawenydd mawr, a byw i’r Hwn sy’n deilwng o’r clod a’r gogoniant, yn awr ac yn oesoedd. Amen.